Papur

Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin



Y MAE DY AIR YN LLUSERN I'M TROED, AC YN OLEUNI I'M LLWYBR

Salm 119:105

Rhifyn 17
PAPUR CHWEFROR 2026

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

Ffroes

Nid crempog neu bancos, ond ffroes. Dim ond pobl o Gwm Tawe fyddai'n deall na fedraf yn fy myw a'u galw'n bancos neu'n grempog! Ac fe fydd yn ddiwrnod ffroes ar 17 Chwefror eleni. Yr enw swyddogol yw Dydd Mawrth Ynyd, ond mae rhai yn cyfeirio ato fel Dydd Mawrth Braster neu Mardi Gras. Hwn fel y gwyddoch yw'r diwrnod cyn dechrau'r Grawys.

Bwriad Dydd Mawrth Ynyd oedd atgoffa pobl fod tymor y Grawys ar fin dechrau. Yn hanesyddol, yn ystod y Grawys byddai Cristnogion yn ymatal rhag pethau fel menyn, caws a braster — yr holl bethau da! Daeth Dydd Mawrth Braster yn gyfnod i bobl fwynhau'r pethau hyn, ac roedd prydau bwyd yn aml yn cynnwys ffroes. Byddent yn llenwi eu hunain â'r danteithion cyfoethog a melys cyn mynd i mewn i dymor o hunanymwadiad ac edifeirwch. Wedi'r cyfan, pan fyddwch chi'n gwybod beth sydd ar ddod, mae'n braf gallu cynllunio ymlaen llaw.

Pan oedd Iesu ar fin mynd i mewn i dymor olaf Ei weinidogaeth ddaearol, paratôdd drwy encilio i Gethsemane am gyfnod o weddi. Cymerodd amser i gamu o'r neilltu a bod gyda'i Dad Nefol. Roedd yn gwybod y byddai Duw wedi tawelu ei ofnau, gan sicrhau heddwch, cysur, a phopeth y byddai Ei angen arno i ddod trwy'r dyddiau oedd o'i flaen.

Nid oes gennym ni bob amser y fraint o wybod pryd mae cyfnod anodd o'n blaenau. Rydym i gyd wedi cael dyddiau pan fyddwn yn dihuno i fywyd fel arfer, ond yn mynd i'r gwely y noson honno gyda phopeth wedi newid.

Yn yr eiliadau hynny, y cyfan sydd gennym i ddibynnu arno yw'r hyn rydym eisoes wedi dewis llenwi ein hunain ag e. Os ydym wedi gorwledda ar bethau'r byd, bydd ein hadnoddau'n diflannu'n gyflym. Ond os ydym wedi llenwi ein hunain â phethau Duw, bydd gennym storfa o heddwch a nerth sy'n fwy na digon i wynebu'r hyn a fydd o'n blaen.

Ie, rhyw feddyliau fel na sydd gen i wrth wynebu'r Grawys eleni.

Mwynhewch eich ffroes!

GWEDDÏWN

Ein Tad,
wrth i ni ymbaratoi
i deithio i'r anialwch gyda Iesu,
a chael ein hysbrydoli gan ei eiriau,
bydded i ni ollwng gafael yn dawel
ar bopeth sy'n galw am ein sylw,
gan osod i lawr yn dyner bopeth sydd ar ein meddwl,
ac agor drws ein calonnau'n ofalus
i dderbyn dewrder, gobaith a nerth newydd.

Amen.

Gweddi o wefan ysgolsul.com

DARLLENIADUR

Mis Chwefror	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 5|: 1-12
Wythnos 2	Mathew 5: 13-20
Wythnos 3	Mathew 17: 1-9
Wythnos 4	Mathew 4: 1-11

PANED A SGWRS

Gwesty'r Llwyn Iorwg
DYDD MERCHER, 4 CHWEFROR 2026
Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr
am 10.30
Croeso cynnes i bawb

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

RHIAN JONES, IRIS OWEN, JOHN A CARYS GREEN, LYN DAVIES, DANNY A GILL OWENS, DAISY DEVONALD, EURWEN JONES, SHEILA JONES A DIENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk

Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad mewn amlen a'i dychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.

CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN

CWRDD CHWARTER

Dydd Iau 12 Mawrth 2026

Capel y Graig, Tre-lech SA33 6RU

Y Gynhadledd am 10,30 / Cyfarfod y Prynhawn am 1.30

Meinir Jones

Oedfa Bore Sul 11 Ionawr 2026

YN sgil gohirio'r oedfa ar fore 4 Ionawr 2026 oherwydd yr eira, braf oedd cael dychwelyd am y tro cyntaf eleni i gyd-addoli yn yr oedfa deuluol undebol a Chymun a gynhaliwyd ar 11 Ionawr. Roedd yr oedfa yng ngofal aelodau Capel Bancyfelin, band y Priordy, Beti-Wyn ac eraill. Wrth i ni gyrraedd y capel, roedd y band, sef Angharad, Jayne, Gareth, Iwan, Tomos ac Osian, eisoes wrthi'n chwarae emynau hwyliog gan osod y naws ar gyfer y gwasanaeth.
Estynnodd Beti-Wyn groeso cynnes i bawb i'r oedfa ac yn dilyn y cyhoeddiadau aeth Greta a Martha a Greta a Noa o amgylch i gasglu'r offrwm cyn i ni gyd-ganu'r emyn cyntaf, sef Jubilate.

Yn ei chyflwyniad eglurodd Marlene o gapel Cana mai thema'r



gwasanaeth oedd "Darllen" a chafwyd dau ddarlleniad byr o'r Beibl sy'n sôn am ddarllen. Roedd y darlleniad cyntaf o ail lyfr Timotheus yn sôn am yr ysgrifau sanctaidd sydd wedi'u hysbrydoli gan Dduw ac sy'n ein dysgu ni i fyw'n iawn. Roedd gweddill rhan gyntaf yr oedfa dan ofal merched capel Bancyfelin a Margaret gyflwynodd yr ail ddarlleniad a hynny o Salm 119 sy'n sôn am ddysgeidiaeth Duw a bod ei eiriau yn lamp i'n traed ac yn goleuo ein llwybr.

Yn y weddi a draddodwyd gan Joanne diolchwyd i Dduw am y Beibl, ei air sanctaidd – llyfr sy'n ein dysgu, yn ein cysuro ac yn dangos llwybr bywyd i ni. Diolchwyd hefyd i bawb trwy'r oesoedd a sicrhaodd ei fod wedi'i drosglwyddo a'i gadw fel y gallwn ei ddarllen yn ein hiaith ein hunain heddiw.

Yn dilyn yr ail emyn, Calon lân, a gyflwynwyd gan Eirian, cafwyd myfyrdod gan Trefina gan barhau â'r thema "Darllen" wrth iddi egluro sut y mae darllen wedi bod yn bwysig iddi erioed, yn bersonol ac yn rhinwedd ei swydd fel cyn athrawes. Soniodd am lyfrau plentyndod a llyfrau mwy cyfoes. Aeth Joanne ymlaen i sôn am y Beibl gan ddiolch i William Morgan oherwydd heb ei gamp ef yn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg ni fyddai'r rhan fwyaf ohonom yn gallu darllen, a mwy a thebyg y byddai'r Gymraeg wedi marw allan erbyn hyn. Nododd natblygiad darllen yng Nghymru. Mae enw Griffith Jones, Llanddowror,

a sefydlodd yr ysgolion cylchynol i ddysgu pobl i ddarllen gan ddefnyddio'r Beibl, yn gyfarwydd iawn ond y gwir amdani yw mai Madam Bridget Bevan a anwyd yn Derllys, Bancyfelin oedd yn

ariannu'r ysgolion hyn i raddau helaeth. Ffaith ddiddorol arall oedd bod Catherine the Great o Rwsia wedi clywed am y cynllun ac wedi awgrymu ystyried ei fabwysiadu yn Rwsia. Daeth Eirian â ni nôl at hanes Cymru a stori Mari Jones yn cerdded 26 milltir i brynu Beibl. Eglurodd ein bod wrth ddarllen y Beibl yn dysgu am ffydd ac am fywyd ysbrydol dyfnach. Gall darllen lenwi'r meddwl ond mae darllen Gair Duw yn gallu newid y galon. Eglurodd Trefina, pan roddwn le i'r Beibl yn ein bywyd bob dydd, rydym yn dod i garu'r Arglwydd yn fwy. Wrth gloi gofynnodd y cwestiwn a ydyn ni mor awyddus i glywed gair Duw ag oedd Mari Jones i'w ddarllen. Yna cydganodd y gynulleidfa emyn addas iawn oedd yn crisialu holl neges y myfyrdod, "Air disglair Duw".

Yn ei hanerchiad i'r plant cyfeiriodd Beti-Wyn at lawer o bethau y mae'n rhaid eu hagor er mwyn gwybod beth sydd y tu fewn, er enghraifft anrhegion, y bu'r plant i gyd mor gyffrous i'w hagor dros y Nadolig, a hefyd cracyrs Nadolig. Nododd fod amlenni a llyfrau yn bethau eraill y maen rhaid eu hagor i weld yr hyn sydd ynddynt. Dangosodd awyren bapur iddynt yr oedd wedi'i gwneud, ac wrth agor y papur roedd cyfarwyddiadau y tu mewn ar sut i greu'r awyren. Un llyfr yn arbennig sydd â chyfarwyddiadau ar ein cyfer ar sut i fyw'n iawn yw'r Beibl ac er mwyn dysgu ohono mae'n rhaid agor y Beibl. Anogodd Beti-Wyn y plant i wneud addewid blwyddyn newydd i agor y Beibl a darllen darn bob dydd. Cyn cloi dosbarthodd ddarn o bapur â chyfarwyddiadau arno ar sut i wneud awyren bapur.

Ar ôl cyd-ganu'r emyn "Iesu, geidwad bendigedig" gweinyddodd Beti-Wyn y Cymun gan gofláu aelodau a chydymdeimlo â'r rhai oedd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis a aeth heibio. Cofiwyd yn arbennig am un o bileri'r achos, Sulwyn Thomas, oedd yn ffrind i bawb o bob oed yn y Priordy. Coffa da amdano.

AR ôl canu'r emyn olaf, "Iesu yw'r Iôr" gwelwyd ffenomenon rhyfedd yn y capel gyda llu o awyrennau'n hedfan o gwmpas! Mae'n amlwg bod y plant wedi llwyddo i ddilyn y cyfarwyddiadau'n iawn a chreu awyrennau arbennig!

OEDFA DEULU DECHRAU'R FLWYDDYN

Diolch am ganiatâd i gyhoeddi'r soned hon o waith Peter Hughes-Griffiths a gyfansoddwyd ganddo ar ôl clywed am golli Sulwyn. Mae'n nodi'i gyfraniad diflino i Gapel y Priordy.

Priordy Sulwyn

Ffyddlonnaf un ohonon ni i gyd,
Yn cyfarch pawb bob bore gyda gwên,
Ac wrth y drws neu'r gât yr oedd o hyd
I'n tywys ni, boed ifanc neu boed hen.
'Rôl gosod rhif 'r emynau ar y bwrdd
A'r gwydr dŵr i'r genad yn eu lle,
A threfnu pwy sy'n casglu ym mhob cwrdd –
Y cyfan oll – ei gyfrifoldeb e.

Bu dy gyfraniad gweithgar yn un hir,
Fe wasanaethaist weinidogion lu,
A'th gariad at yr achos oedd mor glir -
Atgofion ŷnt yn awr o'r dyddiau fu.
Fe fuost yn was da a ffrind i ni,
Tra saif Priordy ni'th anghofiwn di.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Elaine Davies (P) ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Derbyniodd rodd gan ein Gweinidog ar ran yr aelodau

Y mae dy air yn llusern i'm troed, ac yn oleuni i'm llwybr

Salm 119:105

Yn ystod dyddiau byrrach a thywyllach mis Chwefror, mae'r adnod hwn yn arbennig o ystyrlon. Mae Gair Duw yn darparu canllawiau ac eglurder bob dydd, gan oleuo ein ffordd hyd yn oed pan na allwn weld y llwybr llawn o'n blaen. Mae'n alwad i ni ymddiried yn yr Ysgrythur fel ein cwmpawd ysbrydol.



MAER CAERFYRDDIN

Neuadd Ddinesig San Pedr, Maes Nott, Caerfyrddin, SA 31 1PG

Annwyl Aelodau

GWAHODDIAD I YMUNO YN EIN PARÊD GŴYL DDEWI
11am Sadwrn Chwefror 28ain 2026

Pleser o'r mwyaf yw i mi estyn gwahoddiad cynnes iawn ichi i ymuno gyda ni yn ein Parêd Gŵyl Ddewi eleni ar Sadwrn Chwefror 28ain yng Nghaerfyrddin. Bydd hwn yn uchafbwynt cyfnod o weithgarwch Cymreig yn ein tref.

Dyma fanylion Y Parêd:

- Cwrdd yn Eglwys San Pedr erbyn 10.45yb. Y Parêd yn cychwyn am 11.00yb yn union.
- Gorymdeithio draw i'r Clos Mawr (Sgwâr y Guildhall) lle cawn gyfarchion ac eitemau.

Ynghyd â'r baneri gofynnir eleni i chi ddod â chlychau i'w canu wrth gerdded lawr i'r Clos Mawr a hefyd wisgo rhywbeth melyn neu fel daffodil.

Gan edrych ymlaen yn fawr iawn at gael eich cwmni ar y dydd.

Yr eiddoch yn gywir

Y Cynghorydd Heledd ap Gwynfor (Maer Tref Caerfyrddin)

PARCIO AM DDIM YM MEYSYDD PARCIO'R CYNGOR AR DDYDD SADWRN CHWEFROR 28ain

AGOR EIN LLYGAID

Rydym wedi bod yn canu'r intrada *Agor ein llygaid* ers ychydig o amser erbyn hyn ac efallai y byddai o ddiddordeb i ni glywed mwy am yr awdur ac amgylchiadau ei llunio.

Ganed yr awdur, Robert Marcus Cull yn Los Angeles, California ym 1949. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth. Yn chwech oed, roedd yn canu'r piano yn eglwys ei rieni, ac yn ystod y blynyddoedd dilynol dysgodd chwarae dros ddwsin o offerynnau gwahanol. Aeth i Goleg Southern California (Vanguard University of Southern California erbyn hyn) yn Costa Messa, California, sy'n gysylltiedig â Chymdeithas Fyd-eang Cynulliadau Duw. Bu hefyd yn mynychu Calvary Chapel gerllaw, eglwys a adnabyddir am ei harddull addoli cerddorol.

Yn ystod ei ddyddiau coleg, byddai Cull yn mynd i gyngherddau ar y campws. Roeddent yn cynnwys cyfansoddwyr caneuon a chantorion fel Andraé Crouch and Pat Boone o Fudiad Pobl Iesu a oedd yn tyfu mewn poblogrwydd. Daeth Cull yn rhan o'r Mudiad yn California. Cododd y Mudiad hwnnw mewn ymateb i ddau grŵp, hipis ac efengylwyr. Doedd y grwpiau hyn ddim yn credu bod ganddynt le ym mhrif ffrwd y gymuned Gristnogol. Ymunodd Cull ag un o'i grwpiau canu, The Accents, gan berfformio caneuon Cristnogol newydd. Rhyddhaodd y grŵp ddau albwm drwy Maranatha! Music. Label recordio cerddoriaeth Gristnogol yw Maranatha! Music a sefydlwyd yn 1971 fel rhan o weinidogaeth estynedig Capel Calvary. Ar ôl priodi, canodd Cull gyda'i wraig, Joy Strange, cantores gyda Maranatha! Music a'r band Cristnogol, Parable, a rhyddhau pedwar albwm arall (1979-1984).

Yn 1975, yn Hawaii, gwahoddwyd Cull i roi cyngerdd un awr yn ystod y prynhawn mewn ysgol blwyfol. Cyrhaeddodd yn gynnar a cheisiodd siarad â rhai aelodau o'r staff. Doedd yr un ohonynt eisiau siarad am Iesu. Tua hanner awr cyn y cyngerdd, roedd yn eistedd wrth y piano yn meddwl y byddai'n diflasu pawb hyd at syrffed gan mai'r cyfan roedd am ei wneud oedd canu am Iesu.

Mae'n cofio gweddïo fel hyn: "Arglwydd, yr hyn sydd angen i ni ei weld yw'r Iesu go iawn ond mae'n ymddangos nad oes unrhyw un yma yn dy adnabod.' Yna, yn sydyn, syrthiodd cân fach syml i'w ben. Fe'i gosododd ar bapur yn gyflym. Cymerodd tua deng munud i'w hysgrifennu. A'r gân honno oedd 'Open our eyes, Lord'. Canodd hi wedyn i bawb yn yr ysgol a hynny am y tro cyntaf erioed. Pan ddychwelodd Cull i'w eglwys yn California, roedd rhywun eisoes wedi dwyn ei gân yn ôl a'i dysgu i'r gynulleidfa. Gofynnodd Maranatha! Music iddo baratoi trefniadau cerddorol ar gyfer y gân a'i recordio. Fe'i cyhoeddwyd gan Maranatha! Music yn 1976. Datblygodd i fod ei gân fwyaf adnabyddus, a chaiff ei chanu ledled y byd Cristnogol.

Yn ddiweddarach, daeth Cull yn weinidog ar Midcoast Country Chapel, Wiscasset, Maine. Ymddeolodd yn 2014. Symudodd Cull i Friday Harbor, Washington, ac mae bellach yn byw yn Eastsound, Washington.

Mae Mudiad Pobl Iesu a'r gerddoriaeth a gynhyrchodd, fel yr emyn 'Open our eyes, Lord' a chaneuon moliant eraill, wedi gadael effaith barhaol ar ddatblygiad cerddoriaeth mewn addoli cyfoes heddiw.

Troswyd yr emyn i'r Gymraeg gan Catrin Alun, Pont-lliw, Abertawe. Mae'n un o nifer o emynau a droswyd ganddi sydd yn Caneuon Ffydd.

Gweddi sylfaenol i bob Cristion sydd yn y pennill. Mae'n gofyn i Dduw 'agor ein llygaid' i wel Iesu ac 'agor ein clustiau' i wrando arno. Bydd hynny'n gymorth i ni agor ein calon i 'nabod Iesu.

Meddai Iwan Llewelyn Jones yn Caneuon Ffydd 3: Wedi gweld, wedi gwrando, ni chredaf y gallai'r un ohonom, beidio ag agor ei galon iddo, a rhoi lle iddo deyrnasu ynddi a'i gwneud yn gartref i 'feddyliau prydferth gras'.

Dyma'r testun yn y naill iaith a'r llall yn llawn:

Open our eyes, Lord, we want to see Jesus, to reach out and touch him, and say that we love him. Open our ears, Lord, and help us to listen. Open our eyes, Lord, we want to see Jesus.	Agor ein llygaid i weled yr Iesu, i 'mestyn a'i gyffwrdd a dweud i ni ei garu; agor ein clustiau a dysg i ni wrando, agor ein calon i 'nabod yr Iesu.

Diolch yn fawr i'r Athro E Wyn James am ei gyngor wrth baratoi'r sylwadau hyn.

Theatre y Lyric, Caerfyrddin

PEDAIR

Nos Iau 5 Chwefror 2026

Tocynnau: £17.50

GWASANAETH PASG
CARTREF PLAS Y DDERWEN
Prynhawn Gwener – 27 Mawrth 2026
2.30
***gyda'n* Gweinidog**

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.

BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS
Y PRIORDY
Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da

CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'RH'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

1	Rhaid cael dau i-----
2	Rhaid cripian cyn ------
3	Rhaid curo'r haearn tra fo'n ----
4	Rhaid wrth allwedd dda i fynd i -------
5	Rhoi'r ffidil yn y --
6	Rhy lawn a ---
7	Rhy uchel a ----
8	Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei -----
9	Rhygnu ar yr un ----
10	Rhyw i hwch ei ---

Atebion ar Dudalen 32

CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

Mae Eglwys Knarvik wedi'i lleoli ym Mwrdeistref Alver yn Swydd Vestland, Norwy. Mae'n gwasanaethu fel eglwys plwyf i Eglwys Norwy.

Cafodd yr eglwys ei dylunio gan y cwmni pensaernïol Reiulf Ramstad Arkitekter ar ffurf eglwys hir fodern, gyda meindwr nodedig a thoeau esgynnol yn ei nodweddu.

Adeiladwyd yr eglwys ym 2014 ac mae ganddi le i eistedd tua 500 o bobl.

Dechreuodd yr adeiladu ar 3 Tachwedd 2012, a gosodwyd y garreg sylfaen ar 15 Medi 2013.

Mae'r eglwys wedi'i gwneud o bren.

Mae Eglwys Knarvik wedi dod yn adnabyddus yn y gymuned ac yn ddeniad i dwristiaid. Mae'n adlewyrchu treftadaeth bensaernïol Norwy tra hefyd yn gwasanaethu fel canolfan ddiwylliannol i'r boblogaeth leol.

YSGOLION SUL ELIM A'R PRIORDY YN MWYNHAU GWEITHGAREDDAU AR Y CYD YN ELIM AR DDYDD SUL 18 IONAWR 2026

DAETH AELODAU ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY HEFYD I'R UN MAN AR GYFER OEDFA GYDA'R PARCHEDIG ALED EDWARDS, CYN BRIF WEITHREDWR CYTÛN (EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU) AR DDECHRAU'R WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL.

Ifanc@Gofalaeth

Dathlu Gŵyl Dewi
Ysgolion Sul Cymraeg
Caerfyrddin

Oedfa Bore Sul, 1 Mawrth
am 10.00 o'r gloch
yng Nghapel Y Priordy
Sgwrs gan Mererid Hopwood

Cofiwch wisgo eich gwisg Gymreig

I'ch dyddiadur ★★★

MABOLGAMPAU'R YSGOLION SUL

Trefinr gan MIC

NOS WENER, 10 GORFFENNAF
YSGOL MAES Y GWENDRAETH

Chwilotiar Chwefror

F	C	M	C	D	I	A	I	S	E	F	F	E	A
I	E	B	R	O	O	R	A	E	T	A	E	E	P
S	E	U	S	L	L	F	U	I	L	I	L	T	O
I	X	S	R	E	S	O	I	T	L	R	E	B	T
I	O	E	U	F	S	F	S	E	H	F	I	E	E
C	D	X	H	I	R	T	E	I	B	R	T	C	B
S	U	M	R	T	R	A	D	S	A	S	S	A	R
U	S	E	A	I	R	A	I	F	A	I	O	U	L
E	O	C	C	C	S	E	A	E	A	M	D	I	S
S	C	M	E	U	U	I	E	O	A	P	U	A	S
B	E	A	B	S	B	T	R	F	A	B	T	E	E
U	A	I	E	S	G	L	B	S	A	B	T	O	L
C	M	R	R	X	P	R	E	G	E	T	H	W	R
I	L	R	R	C	L	U	H	C	S	E	R	I	C

MAIR
IESU
SAMUEL

COLOSIAID
HEBREAID
PREGETH***W***R
EFFESIAID
LE***F***ITICUS
RUTH
EX***O***DUS
REBECA

ADNOD I'W CHOFIO

"Dewch, dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod." *Mathew 4:19*

Hwyl fawr tan tro nesaf,

Beti Wyn

Llongyfarchiadau i Anna Jones (P) ar ennill Cystadleuaeth Judo Cymru gan ddod yn Bencampwr Ysgolion Cymru

A WYDDECH CHI?

225 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn y ganed William Williams (Caledfryn) (6 Chwefror 1801 – 23 Mawrth 1969), gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd a beirniad llenyddol. Roedd yn hanu o deulu o wehyddion yn Nimbych. Roedd yn un o'r ffigyrau eisteddfodol amlycaf yn ei ddydd a gwnaeth lawer i godi safonau llenyddiaeth Gymraeg ei gyfnod. Treuliodd ddyddiau olaf ei oes yn ne Cymru fel gweinidog yn Y Groes-wen, Morgannwg. Mae Capel Groes-wen wedi'i leoli ar lethrau Mynydd Meio, gyda golygfa dros Gaerffili. Mae'r fynwent yn cynnwys gweddillion rhai o bregethwyr, cerddorion a ffigyrau llenyddol enwocaf Cymru, gan ennill i'r Capel y teitl 'Addoldy Westminster Cymru'.

150 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn y bu farw Daniel Davies, Y Dyn Dall, (15 Tachwedd 1797 – 18 Chwefror 1876), gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Fe'i ganed ym Moelfre, Llanfair-ar-y-bryn, Sir Gâr. Symudodd y teulu i Ferthyr ble collodd Daniel ei olwg ar ôl goroesi'r frech wen. Bu'n fyfyriwr yn Ysgol Brenhinol y Deillion, Lerpwl. Bu'n weinidog ar Gapel Cymraeg Bedyddwyr Bethesda Abertawe am flynyddoedd lawer, gan olynu Joseph Harris (Gomer). Bu farw'r pregethwr Cymraeg enwog Christmas Evans yng nghartref Daniel Davies yn Abertawe yn1838, ac fe bregethodd yntau yn ei angladd, Roedd Daniel Davies yn ŵr amlwg yn ei enwad yn ei ddydd.

125 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, y ganed Iorwerth Cyfeiliog Peate 27 Chwefror 1901 – 19 Hydref 1982), bardd, ysgrifwr, ysgolhaig a churadur cyntaf Amgueddfa Werin Cymru. Ei ddyhead mawr oedd gweld sefydlu amgueddfa werin yng Nghymru ar batrwm amgueddfeydd yng ngwledydd Llychlyn. Pan sefydlwyd yr Amgueddfa yng nghastell Sain Ffagan ar gyrion Caerdydd, ym 1948, fe'i penodwyd i swydd y Curadur, ac yno yr arhosodd hyd ei ymddeoliad ym 1971. Roedd ganddo argyhoeddiadau cryfion, yn enwedig ynghylch Heddychiaeth a'r Iaith Gymraeg. Dywed Y Bywgraffiadur Cymreig y bu dylanwad traddodiad radicalaidd Yr Hen Gapel yn ei bentref genedigol yn Llanbryn-mair, gyda'i bwyslais ar Ryddid a Rheswm, yn drwm arno gydol ei fywyd. Claddwyd ei lwch y tu cefn i Gapel Penrhiw yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan – capel a symudwyd yno o Dre-fach, Felindre, Sir Gâr.

Dydd Gweddi'r Byd

Gwener 6 Mawrth 2026
Oedfa Gymraeg
am 2.00 o'r gloch
yng
Nghapel yr Annibynwyr Saesneg
Heol Awst
Croeso i bawb
Oedfa Saesneg am 10.30yb



CYFARFOD CHWIORYDD ELIM

Yn mwynhau sesiwn grefftau yng nghwmni Enfys Taylor a lluniaeth ysgafn i ddilyn i ddathlu pen-blwydd Mary Evans yn 90 oed

Y CYFARFOD NESAF
DYDD MAWRTH - 3 CHWEFROR 2026 - 1 O'R GLOCH
yng nghwmni
JOHN JONES

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL

Daeth criw da ynghyd i Ganolfan Byddin yr Iachadwriaeth, Heol Awst fore Mercher 21 Ionawr ar gyfer paned a myfyrdod i nodi'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol.

Arweiniwyd defosiwn gan rai o weinidogion yn dref o'r deunydd a baratowyd yn arbennig ar gyfer yr Wythnos Weddi gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

LLONGYFARCHIADAU!

Mary Evans (E) a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ystod mis Ionawr yn derbyn rhodd gan ein Gweinidog ar ran yr eglwys.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Olive Lloyd (P) ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 90 oed. Derbyniodd dusw o flodau gan ein Gweinidog ar ran yr aelodau.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Joan Thomas (HA) a Roy Evans (HA) sydd wedi bod yn gwirfoddoli i Gymorth Crisntogol yn ardal Caerfyrddin ers dros 25 o flynyddoedd, a hefyd i Tom Defis (E) am bob cymorth wrth i Llinos Roberts, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru, ddod i adnabod ardal a chefnogwyr newydd.

Egwys Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AP

CYNGERDD DATHLU
300 MLYNEDD CAPEL HEOL AWST

DYDD SUL, 22 MAWRTH 2026
AM 6.00 YR HWYR

Artistiaid:
Fflur Wyn (Soprano)
Côr Ysgol Bro Myrddin
Adran yr Urdd Ffynnonddrain

Cyfeilydd – Sioned Beynon
Organydd – Meirion Wynn Jones

Cadeirydd – Prif Gwnstabl Ifan Charles, Heddlu Dyfed-Powys

Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James (Gweinidog)

Mynediad £10 wrth y drws
Plant ysgol am ddim

CROESO CYNNES I BAWB
Elw'r noson i'w rannu rhwng:
Côr Ysgol Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnonddrain.

DYLETSWYDDAU

ROTA YMWELWYR ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY					
IONAWR / CHWEFROR 2026					
E	Aelodau	HA	Aelodau	P	Huw a Rhyswen Michael Elinor Wyn a Syfi Rolant

HEOL AWST DYLETSWYDDAU'R SUL			
Chwefror 8	Rhian Jones a Helen Jones	Mawrth 8	Ernest Jones a Dave Thomas
Chwefror 22	Rhian Jones a Helen Jones	Mawrth 29	Ernest Jones a Dave Thomas

CAPEL ELIM					
BLODAU					
Chwefror	1	Nia Evans	Mawrth	1	Alison Evans
Chwefror	22	Nia Evans	Mawrth	15	Mary Williams

PARATOI'R BWRDD CYMUN		
Chwefror	1	Amy Evans
Mawrth	1	Bethan Morgan (5 o'r gloch)

PRIORDY GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS			
Chwefror		Mawrth	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Gwynfor Davies	Philip Jones	Emlyn Schiavone	Huw Jones

PARATOI'R BWRDD CYMUN			
Chwefror	1	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones
Mawrth		*	*

BLODAU

Chwefror	1	Jill Edwards	Mawrth	1	Glenys Thomas
	8	Jill Edwards		8	Glenys Thomas
	15	Catrin Mair Jones		15	Rhian Jones
	22	Catrin Mair Jones		22	Rhian Jones
				29	Heol Awst

DARLLENWYR

Chwefror	1	Carys Morgans	Mawrth	1	Gŵyl Dewi – Y Plant
	8	Beca Elfyn		8	Gill Owens
	15	Elis Jones	*Sul y Fam*	15	Y Mamau
	22	Syfi Rolant		22	Alun Charles
			Sul y Blodau	29	Heol Awst Huw Michael

CYHOEDDWYR

Chwefror	Meleri Llwyd O'Leary	Mawrth	Alison Parsons

CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH

ELIM	Bore Mercher 11 Chwefror 2026	11.00	Y Capel
HEOL AWST	Prynhawn Mercher 11 Chwefror 2026	2.00	Y Festri
Y PRIORDY	Nos Lun 9 Chwefror 2026	7.00	Y Festri

CYFARFOD BLYNYDDOL DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN

Nos Lun 23 Mawrth 2026 am 7 yn Festri Cana

***EIN* cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Rhiannydd Powell (HA), Elvyn Thomas (HA), Mair Loader (HA), Enid Evans (P) a Gwyn Davies (E) sydd gyda'i ferch yn Llundain ar hyn o bryd oherwydd anhwylder. Cofion annwyl atoch i gyd.**

Bu teyrnged hyfryd i Sulwyn Thomas ar Ffermio ar S4C pan fu amryw yn dwyn i gof ei gyfraniad nodedig yn cyflwyno Y Sioe Fach, rhaglenni o Sioe Llanelwedd, a Ffermio rhwng 1997 a 2004.

Bu Elin Wyn (P) yn siarad ar Prynhawn Da ar S4C am fis codi ymwybyddiaeth o gyflyrau Thyroid.

Bydd Meinir Lloyd (P) yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 12 Chwefror. Llongyfarchiadau mawr iddi a phob dymuniad da oddi wrth bob un ohonom.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n Gweinidog neu Alun Charles

CYMDYMDEIMLAD

Trist gennym glywed am farwolaeth un o aelodau Heol Awst, sef y ddiweddar Mrs Nancy John. Estynnwn ein cydymdeimlad â Gareth a'r teulu. Nid oedd trefniadau angladdol wrth i'r papur fynd i'r wasg. Bydd teyrnged i Nancy yn rhifyn Mawrth y Papur

UNDEB Y MAMAU
Dydd Sadwrn, 21 Chwefror - 2 o'r gloch

Mae Undeb y Mamau yn cynnal Oedfa yn Y Priordy i ddathlu pen-blwydd yr Undeb yn 100 oed.

ATEBION Y CWIS
Mis Chwefror

CWIS Y DIARHEBION - ATEBION			
1	ffraeo	6	gyll
2	cerdded	7	syrth
3	boeth	8	llafar
4	baradwys	9	tant
5	to	10	rhoch

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

EISIAU GWYBOD MWY AM GYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN?

TROWCH AT: CYFUNDEB.COM

IOGA

Nos Wener, 27 Chwefror a Nos Wener 27 Mawrth

Cynhelir Sesiynau Ioga yn y Festri'r Priordy wedi'u trefnu gan Fenter Gorllewin Sir Gâr

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

Cinio Gŵyl Dewi

Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2026

Clwb y Quins, Caerfyrddin

12.00 ar gyfer 12.30

yng nghwmni'r canwr

Gruffydd Wyn Roberts

Pris £15.00

Enwau i:
Bancyfelin - Joanne Richards
Cana - Mair Jones
Elim - Ann Walters
Heol Awst - Olga Williams
Priordy - Rhian Jones

Talwrn y Daffodil

Nos Fercher, 4 Mawrth 2026

Yr Egin, Caerfyrddin

7 o'r gloch

Y ddau feuryn:
Tudur Dylan a Mererid Hopwood

Timoedd:
Yr Ysgol Farddol
Cwm Gwendraeth
Capel y Priordy

Mynediad am ddim
Casgliad at achos da lleol

Croeso i bawb

SULIADUR CHWEFROR / MAWRTH 2026

Chwefror 1	Priordy© Gweinidog	Elim (+HA) © Oedfa Deulu Gweinidog		
Chwefror 8	Priordy Gweinidog		Heol Awst (+E)© Gweinidog	
Chwefror 15	Priordy Gweinidog	Elim (+HA) Gweinidog		
Chwefror 22	Priordy Gweinidog		Heol Awst (+E) Gweinidog	
Mawrth 1	Priordy Oedfa Gwyl Dewi y Dre			Elim © Gwyl Dewi Oedfa Gwyl Dewi Y Dref
Mawrth 8	Priordy Gweinidog		Heol Awst (+E) Gweinidog	
Mawrth 15 Sul Y Fam	Priordy Oedfa Deulu Gweinidog	Elim (+HA) Gweinidog		
Mawrth 22	Priordy (E, HA &P) John Gwilyn Jones			
Mawrth 29 Sul y Blodau	Heol Awst (Undebol i'r dref) Gweinidog			

AMSERLEN YR YSGOL SUL

CHWEFROR 2026

Elim

1 Chwefror – Oedfa Deulu

8 Chwefror – Ymweliad a'r banc bwyd

15 Chwefror – Dim Ysgol Sul

22 Chwefror – Ysgol Sul

Y Priordy

1 Chwefror – Ysgol Sul

8 Chwefror – Ysgol Sul

15 Chwefror - Dim Ysgol Sul

22 Chwefror - Ysgol Sul



BYWYD A PHWRPAS
Rick Warren

Cyhoeddiadau'r Gair
Ionawr 2026
£12.99

Mae Rick Warren yn ein harwain ar daith ysbrydol 40-diwrnod a fydd yn ein helpu i ateb y cwestiwn "Pam ar y ddaear ydw i yma?"

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

Y Gymdeithas

Dydd Mawrth, 17 Chwefror

Festri Capel Heol Awst

2 o'r gloch

yng nghwmni

Richard ac Elin Rhys

Croeso i bawb

Capeli ac Eglwysi Cymraeg Caerfyrddin

Oedfaon Gŵyl Dewi Undebol 2026

Dydd Sul, 1 Mawrth 2026

10.00yb - Capel Y Priordy
Oedfa yng ngofal Ysgolion Sul y dref - Neges i'r plant gan Mererid Hopwood

5.00yp - Capel Elim, Ffynnonddrain
Oedfa Gymun Undebol - Pregethir gan Yr Hybarch Randolph Thomas

Rhyddheir Oedfa Ddigidol hefyd ar 1 Mawrth
dros Sianel Youtube a Thudalennau'r Cyfryngau Cymdeithasol

Croeso i bawb